| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Chwefror 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am benodi Aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae penodiadau i'r Pwyllgor Safonau yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Penodi'r Cynghorydd Gordon Hughes i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau 2001, fel y'u diwygiwyd, (y Rheoliadau) yn llywodraethu aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn wleidyddol gytbwys. Mae'n rhaid i Bwyllgor Safonau gael rhwng pump a naw aelod gan gynnwys aelodau lleyg annibynnol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolaeth o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Mae'n rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg annibynnol o hyd ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol fod yn aelodau lleyg annibynnol er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

4.2 Mae saith yn aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwn, sy'n cynnwys y canlynol: dau Gynghorydd Sir; un aelod o Gyngor Dinas, Tref a Chymuned; a phedwar aelod lleyg annibynnol.

4.3 Mae swydd wag wedi codi ar gyfer Aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

4.4 Mae'r Rheoliadau yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbyseb ar gyfer swydd aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned a sefydlu panel o ddim mwy na phum aelod (y Panel) i ystyried pob cais a geir a gwneud argymhellion i'r Cyngor am y penodiad. Rhaid i'r Panel gynnwys o leiaf un aelod lleyg ac un

cynrychiolydd o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref, gwnaeth y Cyngor benodi’r Cynghorwyr Gareth Davies, Richard Mainon a Mark Young i’r Panel.

4.5 Roedd dau ymgeisydd ar gyfer swydd aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned, a chafodd y ddau eu cyfweld gan y Panel ar 19 Ionawr 2018. Ystyriodd y Panel mai’r Cynghorydd Gordon Hughes o Gyngor Tref Corwen oedd yr ymgeisydd mwyaf addas ac felly fe’i argymhellwyd i’r Cyngor i’w benodi.

4.6 Mae’r Rheoliadau yn nodi y gall aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned wasanaethu yn ei swydd am rhwng pedair a chwe mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae’n bosibl i’r aelod wasanaethu am un tymor arall os caiff ei ailbenodi gan y Cyngor. Awgrymir bod y Cynghorydd Gordon Hughes yn gwasanaethu tan ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae Pwyllgor Safonau sy’n gwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn cynorthwyo i ategu gwaith i weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd hawl gyfreithiol gan yr aelod a benodir, o dan adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i dâl dyddiol ac i hawlio costau teithio o bryd i’w gilydd.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran lles o ganlyniad i’r penderfyniad hwn. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio cyhoeddus, agored ar gyfer y penodiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned o ran y penodiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bychain yw’r costau sy’n gysylltiedig â’r penderfyniad ac fe fyddant yn cael eu talu o adnoddau sy’n bod eisoes.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn ôl y Rheoliadau, mae penodi aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i fod ar y Pwyllgor yn orfodol. Byddai methu â phenodi aelod o'r fath yn gallu gwneud trafodion y Pwyllgor yn annilys.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd.